

## COVID-19: AILAGOR AR ÔL Y CYFYNGIADAU SYMUD

**C**roeso i Archifau Gorllewin Morgannwg! Er mwyn cadw pawb yn ddiogel, rydym wedi gorfod gwneud rhai newidiadau i'n gweithdrefnau a'n horiau agor. Dyma'r hyn i'w ddisgwyl:

### Mae ein horiau agor wedi newid

Rydym ar agor am sesiwn fore a sesiwn brynhawn bob dydd fel a ganlyn, gydag egwyl o awr amser cinio fel y gellir glanhau'r ystafell ymchwil:

Dydd Mawrth	10am-12.30pm	1.30pm-4pm
Dydd Mercher	10am-12.30pm	1.30pm-4pm
Dydd Iau	10am-12.30pm	1.30pm-4pm
Dydd Gwener	10am-12.30pm	1.30pm-4pm

### Ceir mynediad drwy apwyntiad yn unig

Rhaid gwneud apwyntiad cyn y gellir ymweld â'r Gwasanaeth Archifau, a bydd angen i chi archebu'r holl ddogfennau rydych yn bwriadu eu harchwilio o flaen llaw hefyd. I'n galluogi i gael popeth yn barod i chi, bydd angen i chi gysylltu â ni o leiaf ddau ddiwrnod gwaith cyn eich ymweliad. Gallwch ymweld â ni dim ond ar ôl i ni gadarnhau'ch ymweliad.

Gallwch chwilio'n catalogau ar-lein yn [abertawe.gov.uk/casgliadauarchifau](http://abertawe.gov.uk/casgliadauarchifau) i ddod o hyd i gyfeirnodau'r holl ddogfennau y mae eu hangen arnoch. Os nad ydych yn siŵr ynghylch yr hyn y bydd angen i chi ei archwilio, anfonwch e-bost atom i ddweud wrthym am yr hyn rydych am ei ddarganfod, a byddwn yn eich cynghori.

### Mae mesurau diogelwch ar waith

- Mae cynllun yr ystafell ymchwil wedi'i newid i sicrhau bod modd cadw pellter cymdeithasol ar bob adeg. Bydd staff yn cadw'u pellter hefyd ac ni fyddant yn gallu cael trafodaeth wyneb yn wyneb ag unrhyw un.
- Yn unol â rheoliadau Llywodraeth Cymru, mae'n rhaid gwisgo gorchuddion wyneb ar bob adeg wrth ymweld â ni. Os oes gennych gyflwr meddygol sy'n golygu bod hyn yn amhosib, byddai'n ddefnyddiol pe gallech ddweud wrthym am hyn pan fyddwch yn gwneud eich apwyntiad.
- Caiff yr ystafell ymchwil ei glanhau ar ddiwedd y sesiwn fore ac ar ddiwedd y dydd.
- Mae ein tocyn darllenwr yn gweithredu fel amddiffyniad olrhain cysylltiadau rhag ofn y bydd ei angen.

## Er bod rhai pethau ar gael.....

- Rydym yn blaenoriaethu mynediad at archifau gwreiddiol na allwch eu gweld ar-lein neu yn unman arall. Mae'r cofrestrau plwyf a llyfrau cyfeirio sydd ar silffoedd yr ystafell ymchwil hefyd ar gael.
- Gallwch archebu sesiwn hanes teulu o hyd am £10, ond cânt eu cynnal bellach ar-lein yn unig. E-bostiwch ni am ragor o wybodaeth. **Ni allwn** gynnig sesiynau un i un yn bersonol.
- Rydym hefyd yn cynnig mynediad ar gyfrifiadur i'r gwefannau hanes teulu poblogaidd, gan gynnwys Ancestry a Find My Past. Dim ond ar ddydd lau a dydd Gwener y mae hyn ar gael. Mae bwcio ymlaen llaw yn hanfodol ac mae'r niferoedd yn gyfyngedig iawn.

## ....nid yw pethau eraill ar gael

- Oherwydd yr angen i sicrhau pellter cymdeithasol, ni allwn ychwaith gynnal ymgynghoriadau wyneb yn wyneb fel yr oeddem yn arfer gwneud, a ni allwn gynnig cymorth un i un wrth ddefnyddio cyfrifiadur.
- Llungopio a sganio yn y fan a'r lle. Gallwch archebu copïau o bethau, a chânt eu hanfon atoch.

## Gwneud apwyntiad

Unwaith i chi benderfynu'n union ar yr hyn rydych eisiau ei weld, rhowch wybod i ni pa ddiwrnod yr hoffech ymweld. Gwnawn ein gorau glas i'ch boddhau, ond os nad oes lle ar gael, byddwn yn dod o hyd i ddiwrnod arall ar eich cyfer.

Rhoddir amser penodol i chi ddod. Byddwch yn brydlon a dilynwch ein system giwio. Os cewch eich oedi neu os na allwch ddod am ba reswm bynnag, rhowch wybod i ni cyn gynted â phosib.

## Yn ystod eich ymweliad

- Cyn gynted ag y dewch chi i mewn i'r Ganolfan Ddinesig, a chyn i chi ddod i'r Archifau, gofynnir i chi olchi'ch dwylo.
- Defnyddiwch y loceri a ddarperir i gadw unrhyw eitemau nad oes eu hangen arnoch yn yr ystafell ymchwil. Caiff y rhain eu glanhau ar ôl cael eu defnyddio.
- Tra'ch bod yn yr Archifau, i sicrhau diogelwch pawb, gofynnwn i chi ddilyn y canllawiau cadw pellter cymdeithasol ac i beidio â cherdded o gwmpas yr ystafell ymchwil.
- Cofrestrir y gwasanaeth Archifau yn lleoliad ar gyfer ap COVID-19 y GIG. Os ydych yn defnyddio'r ap, cadwch lygad am y poster ger y fynedfa a sganiwch y côd QR gyda'ch ffôn.

## Cysylltu â ni

Y ffordd orau o gysylltu â ni yw drwy e-bost. Byddwch yn derbyn ateb ystyriol, fel arfer ar y diwrnod gwaith rydych yn ei anfon neu'r diwrnod canlynol. Ein cyfeiriad e-bost yw [archifau@abertawe.gov.uk](mailto:archifau@abertawe.gov.uk).